

DATGANIAD POLISI

Nod Theatr y Sherman yw diogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n cymryd rhan yn y Celfyddydau, ac fe fydd yn sicrhau bod ei reolwyr, staff, mudiadau partner, contractwyr ac unrhyw wirfoddolwyr yn ymrwymo i arfer da sy'n amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed rhag niwed. Trwy wneud hynny, fe fydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac yn ystyried arfer gorau. Mae'r cwmni'n cydnabod, yn benodol, fod gan reolwyr, staff a gwirfoddolwyr gyfrifoldebau dan Ddeddf Plant 2004.

Dylid darllen y Polisi hwn law yn llaw â "Chanllawiau ar gyfer Gweithio gyda Phobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed" Theatr y Sherman sydd yn y Llawlyfr Staff.

Y Cyfarwyddwr Gweithredol yw'r Swyddog Amddiffyn Plant, yn ei absenoldeb, y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol.

Amrediad y Polisi hwn a'i Ffocws

Fe fydd y polisi hwn yn ymwneud â holl weithgareddau Theatr y Sherman sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Yn ymarferol, fe fydd yn ymwneud â gweithgareddau yn y lleoliad cartref (Theatr y Sherman), mewn ysgolion, lleoliadau cymunedol, theatrau, safleoedd awyr agored ac, yn benodol, mewn gweithdai a dosbarthiadau wythnosol, gweithgareddau yn ystod gwyliau ac unrhyw ysgolion neu gyrsiau preswyl dwys dros y penwythnos. Fe fydd hefyd yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys staff Theatr y Sherman sy'n cael eu rhedeg ar y cyd gyda Chynghorau neu bartneriaid allanol a myfyrwyr o ysgolion a cholegau sydd ar Leoliadau Gwaith.

Gweithdrefnau Recriwtio, Dewis a Chontractio

Dilynir gweithdrefnau recriwtio, dewis a chontractio ar gyfer ein holl bersonél, boed yn gyflogedig neu'n anghyflogedig, yn staff neu'n gontractwyr, ble mae'r swydd y golygu cyswllt uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Ymhob achos:

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth sy'n profi pwy ydyn nhw a chaiff y broses hon ei chofnodi [nodyn: 1]

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu manylion profiad blaenorol, cyflogedig neu wirfoddol, o weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. [nodyn: 2]

Gofynnir am ddau eirda, o leiaf, ac fe fydd o leiaf un ohonynt yn cynnig sylwadau deallus ynghylch profiad yr ymgeisydd o waith cyflogedig neu wirfoddol gyda phlant a phobl ifanc.

Eglurir i'r ymgeiswyr fod y swydd wedi'i heithrio rhag ddarpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, sy'n golygu bod yn rhaid datgelu unrhyw euogfarnau, waeth pa mor hen ydynt. Pwysleisir y ffaith fod y broses hon yn gyfrinachol.

Caiiff ymgeiswyr gyfweiliad ac fe fydd hyn yn cael ei weld fel cyfle i asesu profiad yr unigolyn o weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Fe fydd pob penodiad cyflogedig a gwirfoddol yn ddarostyngedig i gyfnod prawf llwyddiannus. [Mae gwybodaeth bellach ar Gyfnodau Prawf yn y Llawlyfr Staff.]

Iechyd a Diogelwch

¹ Manylion banc wedi llofnodi Contract a chwblhau Ffurflen manylion gweithiwr cyflogedig.

² Cymerir manylion o ffurflenni cais a gan gyflogwyr blaenorol (nid canolwyr yr ymgeiswyr o angenrheidrwydd).

POLISI AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION AGORED I NIWED

Rhaid bod yr holl reolwyr, staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn ymwybodol o Bolisi Iechyd a Diogelwch y cwmni a materion sy'n effeithio ar weithrediadau perfformiadau, dosbarthiadau, gweithdai a gweithgareddau eraill. [Mae pob polisi cyfredol yn y Llawlyfr Staff.]

Datblygir asesiad risg generig ar gyfer gweithgareddau'r Theatr Ieuencid a chaiff ei adolygu'n barhaus ar sail trosglwyddiad dosbarthiadau, gweithdai a pherfformiadau gan diwtoriaid proffesiynol profiadol a chymwys, a hynny yn y lleoliad cartref ac mewn lleoliadau eraill. [gweler "Canllawiau ar gyfer Gweithio gyda Phobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed" yn y Llawlyfr Staff.]

Caiff unrhyw ffactorau risg lleol ychwanegol, unrhyw weithgarwch awyr agored neu sesiynau ychwanegol sydd ar fformat gwahanol, eu hasesu ar wahân. [nodyn 3]. Fe fydd cydgyfrifoldeb rhwng y cwmni, staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr i gynnal cyfathrebu effeithiol ar faterion Iechyd a Diogelwch, fel bod unrhyw risgiau ychwanegol a allai godi yn gallu cael eu hasesu.

Dylai aelodau staff fod yn glir, ar bob adeg, ynghylch pwy sy'n gyfrifol am phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ar safle'r lleoliad cartref, yn enwedig pan fydd gweithwyr mewn gwahanol adrannau yn rhannu cyfrifoldeb dros grŵp. [nodyn 4]

Dylai aelodau staff annog defnydd diogel ac awdurdodedig o wahanol ardaloedd ar y safle a dylent arwain trwy esiampl. Dylid annog pobl i beidio â defnyddio ystafelloedd neu offer mewn ffordd annioegel neu anaddas.

Ni chaniateir i unrhyw un ddod â chyffuriau anghyfreithlon/alcohol ar y safle.

Nid yw ysmygu yn cael ei oddef yn unrhywle o fewn y safle neu o fewn un metr o unrhyw ddrysau neu ffenestri allanol.

Dylid cuddio unrhyw gyffuriau sydd wedi eu presgreibio allan o olwg a chyrraedd. [nodyn 5] [gweler y Llawlyfr Staff "Polisi Alcohol a Chyffuriau" am fanylion pellach].

Gweithdrefnau i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed wedi eu hamddiffyn rhag niwed

- Dylai fod gan aelodau a thiwtoriaid y cwmni ddealltwriaeth o faterion ymosodiad a chamdriniaeth mewn perthynas â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, a'r angen i weithredu mesurau i osgoi unrhyw achosion o'r fath rhag digwydd o fewn ei brosiectau neu raglenni (gweler Delio gydag Ymddygiad Heriol).
- Oherwydd natur gweddol anffurfiol y berthynas rhwng tiwtoriaid/actorion a phlant, mae'n bosib y gallai plentyn sy'n cael ei gam-drin ymddiried neu ddatgelu gwybodaeth bwysig am ei les, yn fwiadol neu heb sylweddoli. Peidiwch â chytuno i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol a sicrhewch ei fod yn glir y bydd angen i chi riportio yr hyn a ddywedwyd wrthych i Swyddog Amddiffyn Plant Theatr y Sherman.
- Os yw plentyn yn dweud rhywbeth wrthych sy'n eich arwain i amau ei fod yn cael ei gam-drin, mae'n ddyletswydd arnoch i'w riportio i'r Swyddog Amddiffyn Plant. (gweler y weithdrefn ar gyfer yr hyn ddylech chi ei wneud os ydych yn credu bod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl).
- Os yw tiwtor neu'r plant mewn sefyllfa o fygythiad dylech ddweud wrth y Swyddog Amddiffyn Plant ar unwaith. Os nad yw'r Swyddog Amddiffyn Plant neu'r dirprwy ar gael, ac oherwydd y sefyllfa mae gennych bryderon dybryd ynghylch diogelwch person ifanc, dilynwch y camau yn "y weithdrefn ar gyfer yr hyn ddylech chi ei wneud os ydych yn

³ Gan yr aelod priodol o'r grŵp rheoli.

⁴ Theatr Ieuencid: Arweinydd y Theatr Ieuencid a'r Cyfarwyddwr Cyswllt. Sioeau Nadolig: Siaperon.

⁵ Gweler y Polisi Alcohol a Chyffuriau yn y Llawlyfr Staff.

Llawlyfr Staff Theatr y Sherman

POLISI AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION AGORED I NIWED

credu bod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl” – gan ffonio 101 i fynd at yr Heddlu fel yr opsiwn olaf un yn unig.

Hyfforddiant

Cynigir canllawiau ar y polisi hwn i'r holl staff sy'n gweithio gyda neu sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio gwaith gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed drwy'r system anwytho gweithredu, bydd hyfforddiant yn cael ei gynniġ bob tair i bum mlynedd yn dibynnu ar y trosiant staff. Gall cwestiynau sy'n ymwneud â'r polisi hwn gael eu cyfeirio at y Swyddog Amddiffyn Plant.

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i fonitro gan yr Ymddiriedolwyr yn unol â'r Atodlen Awdurdod Dirprwyedig.

Atodiadau i'r polisi amddiffyn plant

Y Rheolau ar gyfer Teimladau Crac
Delio gydaġ Ymddygiad Heriol
Canllawiau ar gyfer Gweithio gyda Phobl Ifanc
Llawlyfr Staff